Cyflwynwyd yr ymateb hwn i ymgynghoriad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar Flaenoriaethau'r Chweched Senedd

This response was submitted to the Children, Young People and Education Committee consultation on Sixth Senedd Priorities

CYPE SP 61
Ymateb gan: Llyfrgell Genedlaethol Cymru
Response from: National Library of Wales

Beth yn eich barn chi yw'r prif flaenoriaethau neu'r materion y dylai'r Pwyllgor eu hystyried yn ystod y Chweched Senedd? Os oes modd, nodwch eich barn o ran sut y gallai'r Pwyllgor fynd i'r afael â hyn.

What do you consider to be the main priorities or issues that the Committee should consider during the Sixth Senedd? Where possible, please set out your view about how the Committee could address them.

Thema 1: Addysg oedran ysgol | Theme 1: School-age education

Yn dilyn cyhoeddi adroddiad y Gweithgor dan gadeiryddiaeth yr Athro Charlotte Williams ym Mawrth 2021 credwn y dylai'r Pwyllgor fod yn blaenoriaethu y gwaith o sicrhau bod adnoddau ar gael i helpu i addysgu am gymunedau a chynefin Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig. Credwn fel Llyfrgell Genedlaethol bod rôl amlwg i ni chwarae wrth annog a chynorthwyo disgyblion i astudio a deall eu hardal leol, amrywedd ethnig a diwylliannol Cymru, a chymunedau, hanes, diwylliant, tirwedd a diwydiant yng Nghymru, fel y gallan nhw ddysgu sut mae Cymru wedi datblygu i'r hyn ydyw heddiw.

Mae'r Llyfrgell Genedlaethol yn darparu gweithgareddau a gweithdai ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n derbyn eu haddysg mewn lleoliad heblaw yn yr ysgol. Credwn ei bod yn bwysig bod Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn parhau gyda rôl graffu yn y maes hwn er mwyn sicrhau llesiant ac atebolrwydd ar gyfer taith pob plentyn a pherson ifanc drwy addysg.

Mae Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn darparu gweithgareddau ac adnoddau ar gyfer cefnogi cymhwyster Bagloriaeth Cymru. Gwnawn hyn fel sefydliad unigol, ac mewn partneriaeth ag eraill, gan gynnwys Senedd Cymru. Credwn, fel Llyfrgell, bod Bagloriaeth Cymru yn bwysig wrth ddatblygu sgiliau eang ymhlith pobl ifanc, yn ogystal ag ehangu eu dealltwriaeth o ystod eang o bynciau a meysydd. Credwn y dylai fod yn flaenoriaeth i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i barhau i weithio i weithredu argymhellion ei adroddiad *Bagloriaeth y Dyfodol: Statws cymhwyster*

Bagloriaeth Cymru, Ebrill 2019, er mwyn sicrhau ymwybyddiaeth gwell o'r cymhwyster, a dealltwriaeth gwell ohono ymhlith rhanddeiliaid allweddol.

Mae'n gyfnod cyffrous mewn ysgolion gyda chyflwyno cwricwlwm newydd fydd yn trawsnewid addysg yng Nghymru er gwell. Bydd strategaeth newydd Llyfrgell Genedlaethol Cymru ar gyfer y blynyddoedd 2021-26 yn cynnwys ymrwymiad i barhau i gyfrannu at ddatblygiad y Cwricwlwm i Gymru, cynyddu ein darpariaeth o adnoddau dysgu digidol ein hunain ac ar y cyd â phartneriaid, a buddsoddi yn ein gwasanaethau i ysgolion ac addysg ôl-16.

Mae'r Llyfrgell yn awyddus i sicrhau bod darpariaeth ddigonol o adnoddau gan ysgolion ar gyfer cyflwyno'r cwricwlwm, a gall y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ein cynorthwyo trwy gydnabod bod gan y cyrff treftadaeth cenedlaethol gasgliadau cyfoethog y gellid eu defnyddio er mwyn adrodd stori Cymru, a'n cynorthwyo i hybu cyfleoedd i ysgolion eu defnyddio i adrodd ein stori genedlaethol.

Thema 2: Addysg bellach ac addysg uwch | Theme 2: Further and higher education

Mae Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn rhan o brosiect sy'n cael ei arwain gan Creative & Cultural Skills i gynnig cyfleoedd hyfforddiant a phrofiad gwaith yn y sector treftadaeth. Mae hefyd wedi cynnig prentisiaethau i bobl ifanc yn y gorffennol er mwyn sicrhau dilyniant mewn meysydd arbenigol megis cadwraeth. Yn ein barn ni dylai fod yn flaenoriaeth i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg edrych ar yr ystod o brofiadau, sgiliau ac addysg sy'n cael ei gynnig i bobl ifanc, ac annog a chefnogi prentisiaethau a chyfleoedd eraill i bobl ifanc ddod yn hyfforddai mewn meysydd galwedigaethol.

Thema 3: Iechyd a lles, gan gynnwys gofal cymdeithasol (i'r graddau y maent yn ymwneud â phlant a phobl ifanc) | Theme 3: Health and well-being, including social care (as they relate to children and young people)

Mae Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn ymwybodol iawn o'r effaith cymdeithasol y gall wneud, a sut mae mynediad at wybodaeth yn medru trawsnewid bywydau. Mae wedi cyfrannu yn sylweddol at gynlluniau Llywodraeth Cymru i ddefnyddio diwylliant i fynd i'r afael â thlodi trwy'r rhaglen Cyfuno, ac wedi cyflwyno rhaglenni o weithgareddau gyda phlant a phobl ifanc mewn ardaloedd sydd yn rhan o'r rhaglen. Mae hefyd wedi ymrwymo i barhau i gyhoeddi casgliadau ar-lein, a chynnig mynediad rhad ac am ddim at y rhain.

Rydym yn ymwybodol o waith Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg wrth edrych ar gyllid wedi'i dargedu i wella canlyniadau addysgol. Hoffwn weld y Pwyllgor yn

blaenoriaethu ymyrraeth wedi ei thargedu at leihau y bwlch mewn cyrhaeddiad sy'n bodoli rhwng cymunedau gwahanol, a phobl o gefndiroedd cymdeithasol neu ddiwylliannol gwahanol.

Mae'r Llyfrgell yn gweithredu rhaglen dreigl o weithgareddau gyda phlant a phobl ifanc mewn cymunedau difreintiedig ar draws Cymru ers dros ddegawd, a byddai'n dda gweld Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn blaenoriaethu cydweithio ar draws adrannau'r Llywodraeth er mwyn sicrhau bod gwaith sefydliadau mewn sectorau gwahanol yn cael yr effaith mwyaf posib ar lesiant pobl ifanc.

Mae'r Llyfrgell Genedlaethol yn cydnabod a chefnogi gwaith Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ym maes iechyd meddwl plant a phobl ifanc, adroddiad *Cadernid Meddwl* (2018) a'r diweddariad yn 2020, a'r gwaith sy'n cael ei wneud ar asesu a cheisio lliniaru effaith COVID-19 ar blant a phobl ifanc Cymru. Credwn bod y maes yn flaenoriaeth bwysig a brys i'r pwyllgor yn ystod y 6ed Senedd.

Thema 4: Plant a phobl Ifanc | Theme 4: Children and young people

Mae Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn cydnabod a chefnogi gwaith y Pwyllgor ym maes hawliau plant a phobl ifanc ac yn gobeithio y bydd y maes hwn yn flaenoriaeth unwaith eto i'r Pwyllgor yn ystod y 6ed Senedd.

Mae'r Llyfrgell yn bwriadu gweithio yn y dyfodol agos, trwy waith ymgysylltu yr Archif Ddarlledu Genedlaethol, ar adnoddau dysgu fydd yn arfogi plant a phobl ifanc i adnabod newyddion ffug ac ymateb iddo'n briodol. Fel sefydliad gwybodaeth ac addysg credwn bod hwn yn faes sydd yn rhaid mynd i'r afael ag ef ar frys, a gwelwn y twf mewn newyddion ffug fel her gwirioneddol i ddemocratiaeth. Credwn y dylai Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg fod yn edrych ar sut y gall y sector addysg cyfan gydweithio i wynebu'r her hon.

Mae Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn credu y dylai'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg flaenoriaethu gwaith fydd yn rhoi yr iaith Gymraeg yn ganolog i fywydau pob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru. Dylid sicrhau nid yn unig yr hawl i gael mynediad at addysg, gwybodaeth, adnoddau dysgu, a gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg, ond hefyd, fel hawl sylfaenol, yr hawl i gael cyfleoedd i chwarae, cymdeithasu, dysgu yn anffurfiol a thyfu fyny trwy gyfrwng y Gymraeg.